

Pys Plîs
Mwy o Lysiau

# ADRODDIAD CYNNYDD 2022

PYS PLÎS

Pys Plîs

Mwy o Lysiau

ADDUNEDWYR

RYDYM YN **ADDO** CHWARAE EIN RHAN I HELPU **PAWB YM MHRYDAIN** I FWYTA MWY O LYSIAU

# Diolchiadau

Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at yr adroddiad hwn, ein holl addunedwyr am adrodd ar eu cynnydd yn 2022 ac i'n Hyrwyddwyr Llysiau am eu cefnogaeth a'u cyfraniad dros y flwyddyn ddiwethaf.

Diolch yn arbennig i'n cyllidwr, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (Rhaglen y DU), am wneud ein gwaith yn bosibl.

## Ynglŷn â Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Ni yw cyllidwr mwyaf gweithgareddau cymunedol yn y DU - rydym yn falch o ddyfarnu arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i gymunedau ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ers mis Mehefin 2004, rydym wedi rhoi dros 200,000 o grantiau ac wedi dyfarnu dros £9 biliwn i brosiectau sydd wedi bod o fudd i filiynau o bobl. Rydym yn frwd iawn ynglŷn ag ariannu syniadau gwych sydd o bwys i gymunedau ac yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. Wrth wraidd popeth a wnawn, mae'r gred pan fydd pobl yn arwain, mae cymunedau'n ffynnu. Diolch i gefnogaeth chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, gall unrhyw un wneud cais am ein cyllid. Mae'n fraint gallu gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau, o grwpiau bach lleol i elusennau sy'n cwmpasu'r DU gyfan, gan alluogi pobl a chymunedau i wireddu eu huchelgeisiau.

### GYDA DIOLCH I'N BWRDD STRATEGAETH A'N BWRDD CYNGHORI AM EU HARWEINIAD A'U HARBENIGEDD

**BWRDD PROSIECT:**

| | |
|---|---|
| **Rebecca Tobi** | The Food Foundation |
| **Indu Gurung** | The Food Foundation |
| **Tilda Ferree** | The Food Foundation |
| **Anna Taylor** | The Food Foundation |
| **Jo Ralling** | The Food Foundation |
| **Roz Salik** | The Food Foundation |
| **Katie Palmer** | Synnwyr Bwyd Cymru |
| **Pearl Costello** | Synnwyr Bwyd Cymru |
| **Sian-Elin Davies** | Synnwyr Bwyd Cymru |
| **Michele Shirlow** | Food NI |
| **Lindsay Curran** | Food NI |
| **Michelle Grimes** | Nourish NI |
| **Pete Ritchie** | Nourish Scotland |
| **Simon Kenton-Lake** | Nourish Scotland |
| **Irina Martin** | Nourish Scotland |

**BWRDD STRATEGAETH:**

| | |
|---|---|
| **Kerry Melville** | Nourish NI |
| **Mark Spires** | City University |
| **Alex McDonald** | Kantar |
| **Giles Quick** | Kantar |
| **Jack Hamilton** | Mash Direct |
| **Atul Patel** | PwC |
| **Juliane Caillouette Noble** | Y Gymdeithas Bwytai Cynaliadwy |
| **Sofia Parente** | Sustain |
| **Martin White** | CEDAR, Prifysgol Caergrawnt |
| **Richard Swannell** | WRAP |
| **Joanna Trewern** | WWF |

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb o gyflawniadau | 4 |
| Ein damcaniaeth newid | 5 |
| Rhagolygon ansicr ar gyfer llysiau | 6 |
| Uchafbwyntiau eleni | 9 |
| **Rhan un –** ein gwaith gyda busnesau | 10 |
| **Rhan dau –** ein gwaith gyda dinasoedd a dinasyddion | 18 |
| **Rhan tri –** ein heffaith ar bolisi | 22 |
| Gwersi allweddol a'r camau nesaf | 24 |
| Atodiad | 25 |




## CRYNODEB O GYFLAWNIADAU AC ADDUNEDWYR

**110** O ADDUNEDWYR

Ers lansio Pys Plîs yn 2017 >> **mae 771 MILIWN o ddognau ychwanegol o lysiau wedi'u gwerthu neu eu gweini**




2022 **ELENI**

**mae 16 o addunedwyr wedi cyflawni eu hymrwymiadau**

**cynhaliwyd 59 o weithgareddau wedi'u harwain gan Hyrwyddwyr Llysiau**

DINASOEDD LLYSIAU



llwyddwyd i gyrraedd **605,331** o bobl drwy'r ymgyrch **DINASOEDD LLYSIAU**

NERTH LLYSIAU

**Mae Nerth Llysiau wedi cyrraedd 40 MILIWN o bobl bob blwyddyn ers 2019**



**Cymerodd 3,845 o ysgolion ran yn rhaglen ysgolion Nerth Llysiau**



# Ein theori newid

## IECHYD GWELL I BAWB

Y NEWIDIADAU Y BYDDWN NI'N EU CYFLAWNI

GWTHIO

**MWY O LYSIAU'N CAEL EU CYNNIG** sy'n hwylus ac yn hawdd eu bwyta

**BUSNESAU'N CEISIO GWERTHU MWY O LYSIAU** Manwerthwyr, arlwywyr contract, cadwyni'r stryd fawr, cyfanwerthwyr, gweithgynhyrchwyr, lleoliadau a gweithleoedd yn gwneud adduned gyda chymorth dylanwadwyr system

**YSGOLION YN GWEINI 2 DDOGN O LYSIAU**

**FFERMWYR PRYDAIN YN TYFU MWY O LYSIAU**

EIN CANLYNIADAU

**POBL YN BWYTA MWY O LYSIAU** Yn enwedig y rhai sy'n bwyta'r lleiaf

**100 O HYRWYDDWYR LLYSIAU MEWN CYMUNEDAU**

DINASOEDD LLYSIAU

**GWEITHREDU DWYS MEWN 22 O DDINASOEDD**

TYNNU

**LLYSIAU'N FWY DENIADOL**

**MWY O HYSBYSEBU AR LYSIAU** drwy fusnesau'n gwario mwy ar hysbysebu yn ogystal â buddsoddi yn Nerth Llysiau

**LLYSIAU MWY BLASUS** Colegau coginio yn gwella hyfforddiant ar baratoi bwydydd gyda llysiau

**MWY O GYHOEDDUSRWYDD CADARNHAOL I LYSIAU** Gan roi hyder i fusnesau newid

**MWY O BŴER PWRCASU LLYSIAU**

**GWELL CYNLLUNIAU LLYWODRAETH AR GYFER GWELLA MYNEDIAD AT LYSIAU** Cychwyn Iach, Best Start Foods, cynllun llysiau a ffrwythau ysgolion

**CYNLLUNIAU PEILOT ARLOESOL** Rhoi modelau busnes newydd ar brawf ar gyfer gwella fforddiadwyedd a mynediad at lysiau i'r rhai sydd â chyflogau isel

Y NEWIDIADAU Y BYDDWN NI'N EU CYFLAWNI

# Rhagolygon ansicr ar gyfer llysiau

Roeddem yn ddigon ffodus i gael cyllid gan y Loteri Genedlaethol yn ôl yn 2019 ar gyfer rhaglen waith pedair blynedd, gan ariannu Pys Plîs tan fis Medi 2023. Mae'r byd bellach yn edrych yn dra gwahanol i'r adeg pan ddechreuon ni yn 2019. Mae'r 'normal newydd' wedi dod yn sefyllfa o newid ac ansicrwydd parhaus. Yn dynn ar sodlau'r pandemig Covid, a arweiniodd at ganlyniadau gweithredol difrifol i lawer o'n haddunedwyr, rydym bellach yn wynebu argyfwng costau byw. Yn ystod y naw mis tan fis Medi 2022 dyblodd y lefelau diffyg diogeledd bwyd (Food Foundation, 2022) wrth i brisiau bwyd a biliau ynni gyrraedd eu lefelau uchaf mewn deng mlynedd ar hugain. Mae llawer iawn o deuluoedd a oedd prin yn ymdopi bellach yn ei chael hi'n anodd, gyda 9.7 miliwn o oedolion wedi profi diffyg diogeledd bwyd ym mis Medi.

Gyda chyllidebau'n dynn a chadwyni cyflenwi yn cael anhwaster i ymdopi o dan y straen sy'n deillio o gyfuniad o'r pandemig a'r rhyfel yn Wcrain, mae cynnydd yr addunedwyr, yn anffodus, wedi aros yn ei unfan eleni. Er bod cyfanswm cronnol y dognau wedi cynyddu i **771 miliwn**, ac mae rhai enghreifftiau gwych o arloesi ymhlith ein cymuned o addunedwyr, ni chafwyd yr un cynnydd â'r hyn a welwyd y llynedd.

**Eleni fe wnaethom ychwanegu 147 miliwn o ddognau o lysiau at ein cyfanswm, sydd, er yn galonogol, ymhell o gyrraedd y 461 miliwn o ddognau a ychwanegwyd y llynedd. Mae'r cynnydd o ran y dognau, ar draws ein haddunedwyr yn y sector arlwyo a manwerthu, yn arafu, a chadwyni bwytai yw'r unig sector sy'n dangos twf ystyrlon eleni**.

Ni wnaeth 14% o'n haddunedwyr adrodd yn ôl i ni eleni gyda'r wybodaeth ddisgwyliedig – gyda llawer yn nodi mai prinder staff a phroblemau mwy dybryd gyda'r gadwyn gyflenwi yw'r rhwystrau rhag casglu data ar werthiant a dognau llysiau. Mae hyn yn golygu bod y nifer o addunedwyr sy'n derbyn sgôr goleuadau traffig du (dim data wedi'i dderbyn) ar y lefel uchaf ers i'r rhaglen ddechrau. Er bod hyn yn adlewyrchiad o sector sy'n brwydro i wella ar ôl y pandemig, mae gweld busnesau bwyd yn methu â chymryd rhan mewn cynlluniau i hybu deiet iach a chynaliadwy, fel Pys Plîs, yn destun pryder. Mae'r rhain yn parhau i fod o'r pwys mwyaf wrth i iechyd y boblogaeth ac effeithiau newid hinsawdd waethygu.


> ***MAE'N YMDDANGOS BOD Y CYNNYDD WEDI ARAFU ELENI WRTH I'R PWYSAU CYNYDDOL Y MAE LLAWER O DEULUOEDD YN EU HWYNEBU O RAN COSTAU EFFEITHIO AR WERTHIANT LLYSIAU***

Mae hefyd yn ymddangos yn debygol bod y cynnydd wedi arafu eleni wrth i werthiant llysiau gael ei daro gan y pwysau cynyddol y mae llawer o deuluoedd yn eu hwynebu o ran costau. Mae nifer o'n manwerthwyr sy'n adrodd yn ôl i ni ar werthiant llysiau ar draws amrywiaeth o gynhyrchion a'u busnesau wedi gweld gostyngiad yn nifer y llysiau a werthwyd ganddynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Canfu arolwg yn gynharach eleni gan ein chwaer raglen Nerth Llysiau fod 49% o deuluoedd sydd ar incwm isel wedi nodi eu bod yn prynu llai o lysiau ffres (Nerth Llysiau, 2022), ac mae chwyddiant ym mhrisiau bwyd yn parhau i fod yn uwch ar gyfer llysiau nag ar gyfer rhai categorïau bwyd eraill, megis ffrwythau a melysion (**Ffigur 1**). **Pan fo cyllidebau'n dynn, gwyddom mai'r fasged siopa yw'r lle cyntaf i ddioddef yn aml, gyda chartrefi'n fwy tebygol o flaenoriaethu calorïau rhatach sy'n llenwi mwy ar bobl na'r calorïau a ddaw o ffrwythau a llysiau**. Dangosodd data o argyfwng prisiau bwyd 2008 fod y llysiau a fwyteir wedi cael eu taro'n arbennig o galed y tro diwethaf i chwyddiant fod yn uchel, gan ostwng bron 8% (IFS, 2012). Mae'r wasgfa bresennol yn debygol o effeithio ar ddeiet teuluoedd ar incwm isel yn arbennig, gyda chartrefi sy'n profi diffyg diogeledd bwyd eisoes yn adrodd eu bod yn prynu llai o ffrwythau a llysiau o ganlyniad (**Ffigur 2**).




FFIGUR 1

### Y NEWID % CYFARTALOG YM MHRISIAU BWYD YN ÔL MYNEGAI PRISIAU DEFNYDDWYR AR GYFER POB CATEGORI BWYD YM MIS AWST 2022 O GYMHARU Â MIS AWST 2021




FFIGUR 2

### AELWYDYDD SY'N DWEUD EU BOD YN PRYNU LLAI O FFRWYTHAU A LLYSIAU, AROLWG YOUGOV, MEDI 2022




Mae data a ddarparwyd drwy garedigrwydd Kantar i'r rhaglen Pys Plîs yn dangos bod cyfran y basgedi siopa sy'n cynnwys llysiau wedi gostwng ychydig eleni, a bod y bwlch rhwng aelwydydd ar incwm uchel ac isel wedi lledu ers 2020-21. **Er mai ein hamcan ehangach o hyd yw gweld 3 biliwn o ddognau ychwanegol o lysiau'n cael eu gweini neu eu gwerthu gan ein cymuned o addunedwyr erbyn Haf 2023, mae bellach yn bwysicach nag erioed i fusnesau weithredu i sicrhau bod aelwydydd incwm isel a chanolig yn gallu cael gafael ar** lysiau wrth i'r argyfwng costau byw frathu. Rhaid i ni beidio â gadael i'r amgylchedd ehangach a'r hinsawdd wleidyddol atal y cynnydd addawol yr oeddem yn dechrau ei weld ledled y DU. Ni fu cenhadaeth Pys Plîs, sef ei gwneud yn haws i bawb fwyta mwy o lysiau, erioed yn bwysicach nac yn fwy perthnasol, a bydd angen i bawb fwrw ati yn y flwyddyn i ddod er mwyn gwireddu hyn

## MAE GENNYM DRI NOD:

1 **Gweld mwy o lysiau'n cael eu bwyta:** Rydym eisiau gweld mwy o lysiau'n cael eu cynnig mewn ffyrdd cyfleus a hawdd eu bwyta. Rydym eisiau i lysiau fod yn fwy deniadol a dymunol. Ac rydym eisiau i aelwydydd incwm isel gael mwy o bŵer i brynu llysiau.

2 **Ysgogi newid parhaol yn y system fwyd** o blaid bwyta mwy o lysiau, wedi'i adlewyrchu mewn arferion busnes a pholisïau'r llywodraeth.

3 **Creu model llwyddiannus er mwyn galluogi i leisiau a phrofiadau pobl** helpu i greu newid yn y system fwyd.



## ADDUNEDWYR NEWYDD

Gan mai'r flwyddyn gyfredol (2022-2023) yw'r olaf o fewn ein cylch cyllido presennol, rydym wedi troi ein golygon oddi wrth annog sefydliadau o fewn y system fwyd i wneud addunedau newydd gan ganolbwyntio ar sicrhau bod ymrwymiadau addunedwyr presennol yn cael eu cyflawni. Serch hynny, roeddem yn falch iawn o groesawu **5 o addunedwyr newydd** i'r rhaglen.

ocado · Food Standards Scotland · SUBWAY · Queen's University Belfast · Millbank Farm

## BETH NESAF?

Gan mai hon yw'r flwyddyn adrodd olaf y mae gennym cyllid ar ei chyfer, ar hyn o bryd rydym yn gweithio i ddatblygu a chynllunio cam nesaf ein gwaith gyda sefydliadau o fewn y system fwyd i'w gwneud yn haws i bawb gael gafael ar lysiau. Wrth i ni agosáu at ddiwedd ein hamserlen waith 4 blynedd, dyma sydd gennym wedi'i gynllunio i sicrhau, gyda'ch help chi, ein bod yn cael canlyniadau cadarn.

**Ionawr 2023** – Byddem wrth ein bodd yn gweld ein haddunedwyr yn **lansio mentrau sy'n cefnogi aelwydydd i gael gafael ar lysiau yn ystod yr argyfwng costau byw, ac ymrwymo iddynt**

**Gorffennaf 2023** – **Adrodd ar gyfer y flwyddyn 2022-3.** Addunedwyr i fod wedi cyflawni eu hymrwymiadau.

**Medi 2023** – **Adroddiad Ein Pobl**, yn crynhoi rhaglen waith ein Hyrwyddwyr Llysiau, yn cael ei chyhoeddi.

**Hydref 2023** – **Uwchgynhadledd Llysiau 2023**. Bydd digwyddiad olaf y cam hwn o Pys Plîs yn dathlu llwyddiant ac yn edrych ymlaen at gam nesaf ein gwaith o gefnogi'r newid i ddeiet iach a chynaliadwy.

**Tachwedd 2023** – **Ein hadroddiad cynnydd terfynol**, yn crynhoi pedair blynedd o gynnydd yn cael ei chyhoeddi.

**2024 ymlaen** – CADWCH EICH LLYGAID AR AGOR...!

### GWOBRAU PYS PLÎS

Bydd ein seremoni wobrwyo flynyddol yn gwobrwyo'r rhai sydd wedi cyfrannu fwyaf dros y pedair blynedd diwethaf. Bydd cwmnïau sy'n gallu dangos cynnydd yn erbyn ein tri metrig allweddol ar gyfer asesu cynnydd tuag at ddeiet cynaliadwy ac iach (gwerthu llysiau, gwerthu protein o blanhigion, gwerthu bwyd iach) yn ennill ein Gwobr Moronen Aur gyntaf.



# Uchafbwyntiau eleni




Croesawyd **45** ohonoch i'n Cynhadledd wyneb yn wyneb gyntaf i Addunedwyr ers 2019.

**Lansiwyd ein porth adrodd ar-lein newydd er mwyn i addunedwyr adrodd yn ôl i ni ar eu cynnydd**



Dyfarnwyd **100 o grantiau bach** gennym i'n Hyrwyddwyr Llysiau, gan gefnogi **59 o weithgareddau sy'n anelu at gynyddu faint o lysiau a gaiff eu bwyta** mewn cymunedau lleol

**Daeth 180 o bobl i weminar a gynhaliwyd gennym yn archwilio'r potensial i ffrwythau a llysiau gael eu hintegreiddio i gynlluniau presgripsiwn cymdeithasol sy'n targedu cymunedau incwm isel**




Cafodd adroddiadau Pys Plîs eu lawrlwytho dros **1,080** o weithiau rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Awst 2022



Cafodd Pys Plîs a Nerth Llysiau **347 o drawiadau ar y cyfryngau**



**Cynhaliwyd 3 Digwyddiad Llysiau'r Bobl ledled y DU, gan ddod â'n Hyrwyddwyr Llysiau ynghyd ar gyfer ysbrydoliaeth a chynllunio.**

# RHAN UN
# EIN GWAITH GYDA BUSNESAU

## GWOBRAU PYS PLÎS

Cyhoeddwyd enillwyr eleni yn ein Cynhadledd Addunedwyr. Dewiswyd yr enillwyr a'r rhai a ddaeth yn ail ar sail eu cynnydd yn ystod cylch adrodd 2021/22.

### HYRWYDDWR - ADDUNEDWR PYS PLÎS

*Mae'r wobr hon yn cydnabod sefydliadau sydd wedi gweithredu addunedau Pys Plîs yn effeithiol fel rhan greiddiol o'u cynnig busnes, gan gynnwys Pys Plîs yn eu hadroddiadau cwmni, neu drwy gysylltu eu haddunedau ag arfarniadau o berfformiad y cwmni a'r staff.*

**ENILLYDD:**
**SAINSBURY'S**

Mae Sainsbury's wedi adnewyddu ei adduned i gynyddu'r gyfran o gyfanswm gwerthiant llysiau 1% o dunelli, ac mae'n annog cwsmeriaid i gynyddu'r llysiau y maent yn eu bwyta gyda chynlluniau amrywiol gan gynnwys cynnig ffrwythau a llysiau 'Imperfectly Tasty' a 'Greengrocer' am bris cystadleuol, i sicrhau bod cynnyrch ffres ar gael i'w holl gwsmeriaid.

**YN AIL:** **Henderson Group /SPAR NI**

### HYRWYDDWR PYS PLÎS - UNIGOLYN

*Cydnabod cyfraniad eithriadol unigolyn sy'n gweithio yn un o'n sefydliadau sy'n addunedwyr o ran ysbrydoli a dangos arweiniad mewn perthynas ag adduned Pys Plîs ei sefydliad.*

**ENILLYDD:**
**MARK NEWBOLD,** LIDL

Mae Mark wedi cryfhau ymrwymiad Lidl i hybu a gwella gwerthiant llysiau. Mae Lidl hefyd yn un o'r manwerthwyr cyntaf i gynnig adroddiadau tryloyw newydd ar werthiannau o'r fath. Bu Mark hefyd yn chwilio'n frwd am ffyrdd o gefnogi menter Cychwyn Iach y llywodraeth ac ymgysylltodd yn frwd â sgyrsiau Hyrwyddwyr Llysiau'r Food Foundation.

**YN AIL:** **Grace Ricotti,** Aldi

### GWOBR DINAS LLYSIAU

*I gydnabod dulliau effeithiol ac integredig yn seiliedig ar le o gynyddu nifer y llysiau sy'n cael eu bwyta ar lefel leol ar gyfer dinasoedd sy'n cymryd rhan yn yr ymgyrch Dinasoedd Llysiau.*

**ENILLYDD:**
**HULL**

Mae Hull Food Partnership wedi gweithio gyda chyngor y ddinas, sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol a busnesau bwyd. Mae cyfanswm o 35 o sefydliadau wedi creu cryn argraff drwy wneud 48 o addunedau llysiau ychwanegol, ac mae'r cynllun yn parhau i dyfu.

**YN AIL:** **Leeds**





## GWOBR CYNNYDD LLYSIAU

*Cydnabod y cynnydd canrannol mwyaf yn y dognau llysiau a gafodd eu gwerthu neu eu gweini gan ein haddunedwyr rhwng cylchoedd adrodd 2020/21 a 2021/22*

**ENILLYDD:**
**BLACKPOOL CATERING SERVICES**

Wedi sicrhau cynnydd o 171% yn y llysiau a fwyteir drwy weithredu bwydlenni newydd gyda mwy o lysiau a chynyddu faint o lysiau a fwyteir mewn cynlluniau darparu prydau ysgol yn ystod gwyliau ysgol.

**YN AIL:** Giraffe

## SEREN NEWYDD PYS PLÎS

*I gydnabod addunedwyr newydd Pys Plîs sydd wedi gwneud addunedau arbennig o effeithiol ac uchelgeisiol i'n helpu ni i gyd i fwyta mwy o lysiau.*

**ENILLYDD:**
**TastEd**

Mae TastEd wedi ymgysylltu â 100 o ysgolion i helpu i gyflwyno gwersi addysg blas a darparu hyfforddiant ac adnoddau i athrawon fel y gellir cynnwys ffrwythau a llysiau ffres mewn gwersi. Nod hyn yw ysbrydoli plant i ddefnyddio eu holl synhwyrau, gan eu hannog i archwilio ac yna dewis bwyta ffrwythau a llysiau.

## GWOBR CYMDEITHAS DDA PYS PLÎS

*Hyrwyddo ymdrechion i wella'r gallu i gael gafael ar lysiau o ansawdd drwy arloesi mewn ffermio, gwell bwyd ysgol, a rhaglenni sy'n targedu grwpiau incwm isel.*

**ENILLYDD:**
**BWYD A HWYL**

Rhaglen addysg yn yr ysgol yw 'Bwyd a Hwyl', ac mae'n darparu addysg ar fwyd a maeth, gweithgaredd corfforol, sesiynau cyfoethogi a phrydau iach i blant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol yn ystod gwyliau haf yr ysgol yng Nghymru. Mae Egwyddorion Bwydlen Bwyd a Hwyl yn sicrhau bod lleiafswm o ddau ddogn wahanol o lysiau a/neu salad yn cael eu gweini gyda phob pryd amser cinio.

**YN AIL:** Bags of Taste

## GWOBR ARLOESEDD PYS PLÎS

*I gydnabod gweithgareddau ysbrydoledig ac arloesol i gefnogi addunedau Pys Plîs sefydliadol a'n cenhadaeth gyffredinol o gynyddu'r llysiau a gaiff eu bwyta. (Mae beirniaid y categori hwn hefyd yn ystyried ymgeiswyr sy'n monitro a gwerthuso eu cynlluniau eu hunain).*

**ENILLYDD:**
**GROENTENFRUIT HUIS**

Mae GroentenFruit Huis wedi trosglwyddo ei arbrofion ysgogi yn y siop i amgylchedd siopa ar-lein yn ystod y pandemig covid. Prynodd y grŵp a gafodd ei ysgogi 7% yn fwy o lysiau a 6% yn fwy o ffrwythau. Roedd yr ysgogiadau a ddefnyddiwyd yn cynnwys mesurydd ffrwythau a llysiau a oedd yn rhoi sgôr uchel neu isel i fasgedi siopwyr.

**YN AIL:** Tesco



# Cynnydd addunedwyr eleni

## MONITRO CYNNYDD ADDUNEDWYR

Prif ddiben cyhoeddi ein hadroddiadau cynnydd yw asesu ffyddlondeb pob addunedwr i'w hadduned. Gwneir gwaith monitro bob blwyddyn drwy gyfuniad o:

1 Addunedwyr yn hunanadrodd i dîm Pys Plîs, gan adrodd yn erbyn eu hymrwymiadau a'u targedau CAMPUS (SMART).

2 Defnyddio metrigau cyfanredol, o ffynonellau annibynnol (data Kantar a data blynyddol o arolygon deietegol sy'n cynrychioli'r sefyllfa genedlaethol fel yr Arolwg Cenedlaethol o Ddeiet a Maeth (NDNS)).

3 Ymweliadau, lle bo hynny'n berthnasol, â siopau manwerthu, cadwyni bwytai a gwiriadau sianeli cyfryngau cymdeithasol a gynhelir gan ein Hyrwyddwyr Llysiau a'r tîm Pys Plîs.

4 Gweithio gyda phartneriaid annibynnol (Brightpurpose a City University) sy'n gyfrifol am werthuso'r rhaglen gyffredinol ac asesu i ba raddau yr ydym yn cyflawni ein hamcanion gwreiddiol.

Eleni am y tro cyntaf, defnyddiodd yr addunedwyr ein porth adrodd ar-lein newydd i roi adroddiadau i ni. Gofynnwyd i addunedwyr hunanasesu eu cynnydd gyda sgôr rifiadol ar raddfa o 1-3, a darparu cyfiawnhad dros y sgôr a roddwyd ac yna fe wnaethom ddefnyddio hynny i gadarnhau neu addasu'r sgôr hunanraddio. Rydym yn cyhoeddi dau god lliw goleuadau traffig ar gyfer addunedwyr yn seiliedig ar y sgôr rifiadol hon pan fyddant yn adrodd ar eu hail flwyddyn a'r blynyddoedd dilynol o ddata (un ar gyfer cynnydd cyffredinol, ac un ar gyfer cynnydd dogn lle bo hynny'n berthnasol). Rhennir canlyniadau'r flwyddyn gyntaf gydag addunedwyr yn breifat. Fodd bynnag, mae cyfraniadau at ein cyfansymiau dognau blynyddol a chronnol wedi'u cynnwys o flwyddyn adrodd gyntaf yr addunedwyr er mwyn olrhain ein cynnydd dros gyfnod y rhaglen gyfan.

**Diffinnir y sgôr goleuadau traffig fel a ganlyn:**

- **DU:** Dim adroddiad gan yr addunedwr
- **LLWYD:** Blwyddyn adrodd gyntaf (adroddir ar y sgôr y flwyddyn nesaf)
- **COCH:** Cynnydd cyfyngedig
- **OREN:** Dechrau da
- **MELYN:** Ar y ffordd tuag at lwyddiant
- **GWYRDD:** Wedi cyflawni'r holl ymrwymiadau'n llawn.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi caniatáu i addunedwyr optio allan o adrodd i ni os gallent brofi bod yr aflonyddwch a'r cyfyngiadau a achoswyd gan y pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar eu gallu i adrodd a'u capasiti. Nid yw addunedwyr yn y sector Allan o Gartref felly wedi adrodd yn ôl yn gyson i ni dros y ddwy flynedd adrodd ddiwethaf. **Eleni, ni ddarparwyd unrhyw opsiwn eithrio oherwydd Covid-19 i addunedwyr o gofio mai cylch adrodd 2021-22 yw'r un cyntaf mewn tair blynedd lle nad yw bwytai ac arlwywyr wedi gorfod cau am gyfran o'r flwyddyn.**

## NERTH LLYSIAU

Dadansoddir data gwerthiannau a chanlyniadau manylach ar gyfer ein chwaer raglen Nerth Llysiau ar wahân fel rhan o ymarfer gwerthuso blynyddol yr ymgyrch a wneir gan Nerth Llysiau. Eleni mae 1 miliwn o blant wedi cymryd rhan mewn blasu, tyfu a hwyl llysiau diolch i ymgyrch *Bwytewch y Llysiau i'w Llethu* gan Nerth Llysiau ac ITV, gyda 57% o rieni â phlant a gymerodd ran yn dweud eu bod yn bwyta mwy o lysiau o ganlyniad. Mae Nerth Llysiau hefyd wedi bod yn gweithio'n galed yn lansio gwefan newydd Simply Veg - ymgyrch newydd sy'n helpu teuluoedd i ymdopi â'r argyfwng costau byw drwy weini prydau fforddiadwy ac iach gan ddefnyddio llysiau a chorbys. Ewch i'r **wefan** i gael manylion pellach am eu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.



## Y BROSES ELENI


Mae mwyafrif yr addunedwyr a gyflwynodd ddata wedi gwneud cynnydd o ran eu haddunedau. Cafodd **40 o blith 61** a gyflwynodd adroddiad i ni eleni sgôr goleuadau traffig melyn neu wyrdd ac felly maent ar y trywydd iawn tuag at gyflawni eu hymrwymiadau neu eisoes wedi gwneud hynny (gweler **Atodiad 1**).

### ADDUNEDWYR SYDD WEDI DERBYN SGÔR GOLAU TRAFFIG GWYRDD ELENI

- ACS
- Ask Italian
- Bags of Taste
- Brewers Fayre (Whitbread)
- Caterlink
- Bwyd a Hwyl
- Giraffe
- Greggs
- Harvester
- Henderson Group and Spar NI
- Hungry Horse (Greene King)
- JD Wetherspoon
- Lantra
- Ocado
- Cymdeithas y Pridd
- Ysgol Fusnes Prifysgol Ulster

FFIGUR 3

### CANRAN Y CYFRANIAD TUAG AT GYFANSWM CRONNOL EIN DOGNAU WEDI'I DDADANSODDI YN ÔL SECTOR; 2018 - 2022




TABL 1

| CYNNYDD O RAN ADRODD AR GYNNYDD PYS PLÎS | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr addunedwyr y disgwylir iddynt adrodd eleni | 41 | 49 | 70 | 74 | 76 |
| Nifer yr addunedwyr a ddarparodd ddata hunangofnodedig | 35 | 41 | 38 | 40* | 53 |
| Nifer yr addunedwyr sy'n cael eu monitro gan y tîm Pys Plîs - dim data hunangofnodedig | 3 | 5 | 3 | 2 | 5 |
| Nifer yr addunedwyr na wnaethant ddarparu data | 3 | 3 | 4 (mae 2 ohonynt bellach wedi cael eu dileu o'r rhaglen)* | 2 (mae 1 ohonynt wedi cael ei ddileu o'r rhaglen)* | 2 (mae 1 ohonynt wedi cael ei ddileu o'r rhaglen)* |
| Nifer y Dinasoedd Llysiau | ** | 22 | 25 | 25 | 10 |

** Ni ddarparodd 26 o addunedwyr ychwanegol ddata oherwydd materion yn ymwneud â chapasiti yn sgil COVID-19.*
*** Cymerodd tair Dinas Llysiau ran yn y broses fonitro fel addunedwyr yn 2017/18 a chânt eu cyfrif uchod yn nifer yr addunedwyr y disgwylir iddynt gyflwyno adroddiad.*

# ENGHREIFFTIAU O ARLOESI GYDA LLYSIAU

Fel erioed, mae addunedwyr wedi ymgymryd â'r her llysiau mewn nifer o ffyrdd arloesol eleni - mae pob un ohonynt yn helpu i lywio ein gwybodaeth o'r hyn sy'n gweithio i gynyddu'r llysiau sy'n cael eu bwyta.

## MARCHNATA A CHYFATHREBU

- Trawsnewidiodd **Aldi** y foronen wylaidd yn gymeriad hysbyseb Nadoligaidd ffasiynol yn 2021. Kevin the Carrot oedd y cymeriad Nadolig y chwiliwyd amdano fwyaf ar Google yn y pum mlynedd diwethaf, gan guro hysbyseb Paddington Bear M&S. Ymunodd Aldi â Marcus Rashford MBE ar 'The Christmas Carrot' sy'n cynnwys ei gymeriad llysiau ei hun 'Marcus Radishford', a thynnodd sylw at ei ymgyrch am brydau ysgol am ddim. Roedd y dehongliad unigryw o'r stori glasurol Christmas Carol yn rhoi sylw i gymeriadau ffrwythau a llysiau gan gynnwys Tiny Tom a Peas and Goodwill.

- Mae **Millbank Farm** yn rhan o'r cynhyrchwyr llysiau cydweithredol, Veg NI, sy'n gweithio i dynnu sylw at fanteision bwyta mwy o lysiau ac - yn arbennig - llysiau a dyfwyd yng Ngogledd Iwerddon. Gyda Grant Cydweithredu DAERA llwyddodd Veg NI i greu platfform ar-lein: Parful Produce. Cynhaliodd Parful arddangosiadau bwyd rheolaidd yn yr adran Garddwriaeth Iach yn sioe Balmoral a ddenodd hyd at 120,000 o ymwelwyr gan gynnwys nifer o wleidyddion, swyddogion y llywodraeth a busnesau.

- Mae **Ocado** wedi creu ‘bwndelau prydau hudol’ wedi’u hysbrydoli gan Disney i greu prydau fforddiadwy, cytbwys i deuluoedd. Mae'r bwndeli prydau bwyd yn cynnwys o leiaf un dogn o lysiau a label â blaen gwyrdd neu ambr o oleuadau traffig label.

## DATBLYGU CYNNYRCH

- Lansiodd **Tesco** ymgyrch Basged Well gyda'r nod o fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae cwsmeriaid yn eu hwynebu wrth geisio llenwi eu basged â dewisiadau iachach. Fe wnaeth hefyd lansio cynnyrch briwgig Cig a Llysiau newydd sy'n cynnwys 30% o lysiau fel rhan o'u menter Basged Well i gefnogi teuluoedd i gynyddu’r llysiau y maent yn eu bwyta, gyda'r cynnyrch yn cael ei gynnig am bris is i’r rhai â Clubcard ac yn profi'n llwyddiant gyda chwsmeriaid. Ddiwedd y llynedd buom yn ffilmio ein Hyrwyddwyr Llysiau yn ymweld â chegin ddatblygu Tesco i glywed am eu gwaith ar yr adduned Pys Plîs a'r ystod newydd o gynnyrch Cig a Llysiau. 🔗 **Gwyliwch ein fideo byr yma**.

- Lansiodd **Waitrose** Waitrose y cynnyrch Eat Flexi i helpu cwsmeriaid i fwyta mwy o lysiau a llai o gig. Drwy gyfuno cig gyda llysiau a chorbys, mae blas ac ansawdd cig i’r cynnyrch o hyd ond gyda llai o fraster a braster dirlawn, mwy o lysiau a mwy o ffibr. Mae pob un o gynhyrchion Eat Flexi yn cynnwys o leiaf 25% o lysiau a chorbys.

- Ym mis Mehefin 2022, lansiodd **Greggs** ddau opsiwn salad newydd sbon fel rhan o’u cynnyrch Balanced Choice sy'n cynnwys o leiaf un dogn o lysiau; sef Bhaji Tatws Melys a Reis, a Reis Cajun Mwg gyda Ffriteri Cyw Iâr ac India-corn Barbeciw. Yn dilyn treial llwyddiannus yn y Gogledd-ddwyrain, cyflwynwyd y saladau newydd ledled y wlad i gwsmeriaid Greggs ledled y DU i’w mwynhau.

## DATBLYGU BWYDLENNI

- Mae **Bartlett Mitchell** yn parhau i greu ryseitiau ffres a chreadigol sy'n canolbwyntio ar lysiau a ffrwythau. Mae wedi creu cysyniad newydd o'r enw 'Eat with the Earth in mind’ sy'n disodli cynhwysion cig carbon uchel â chynhwysion carbon isel, sef ffrwythau a llysiau, heb golli blas ac ansawdd y prydau. Mae'n newid cynnil iawn sydd serch hynny yn rhoi hwb maethlon.

## NEWID YR AMGYLCHEDD

- Yn ystod yr haf, cafodd prosiect cydweithredol rhwng Synnwyr Bwyd Cymru, **Castell Howell**, Cyngor Caerdydd, Blas Gwent, Bwyd Caerdydd, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ei dreialu gyda'r nod o gynyddu'r defnydd o gynnyrch a dyfir yn lleol mewn prydau ysgol drwy ymgysylltu â phlant a'r gadwyn gyflenwi. Roedd hefyd yn cefnogi ymrwymiad Pys Plîs Castell Howell i gynyddu gwerthiant llysiau drwy fabwysiadu mesurau newydd i hyrwyddo cynnwys llysiau mewn prydau yn ogystal ag ymrwymiad Cyngor Caerdydd i gyflenwi dau ddogn o lysiau ym mhob cinio ysgol fel rhan o'u hadduned i Ddinasoedd Llysiau Bwyd Caerdydd. Defnyddiwyd y corbwmpenni mewn ysgolion sy'n cymryd rhan mewn Bwyd a Hwyl - menter Llywodraeth Cymru a gaiff ei chydlynu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

- **Compass Group** oedd yn darparu'r arlwyo ar gyfer COP26 yn Glasgow yn 2021, gan addo prynu o leiaf 80% o'r bwyd yn lleol yn yr Alban a 15% o fewn y DU, gyda'r holl gynnyrch yn dod gan gynhyrchwyr lles uchel sy'n defnyddio prosesau amaethyddiaeth gynaliadwy. Crewyd bwydlen lle roedd 60% o'r opsiynau yn brydau llysieuol a phlanhigion.

- Mae **Bwyd a Hwyl** yn rhaglen gyfoethogi gwyliau ysgol sy'n darparu addysg bwyd a maeth, gweithgaredd corfforol a phrydau iach (gan gynnwys dau ddogn o lysiau) i blant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol yn ystod gwyliau'r haf yng Nghymru. Dangosodd arolwg o dros 2000 o blant fod bron i 50% o blant wedi dweud eu bod wedi bwyta mwy o ffrwythau a llysiau yn ystod y dyddiau y buont ar y rhaglen Bwyd a Hwyl. Ar y cyfan, roedd plant yn ystyried eu bod yn bwyta'n iachach pan oeddent mewn gweithgareddau Bwyd a Hwyl o gymharu â'r dyddiau eraill yn ystod gwyliau'r ysgol.

## LLEOLI LLYSIAU

- Ar ddechrau 2022, ffurfiodd **Sodexo** bartneriaeth â WWF i lansio Plant+ gan Finer Diner, sef ymgyrch i helpu i gynyddu faint o fwyd o blanhigion a gaiff eu bwyta mewn 16 ysgol uwchradd, gyda bwydlenni'n canolbwyntio ar gynhwysion a oedd 100% yn seiliedig ar blanhigion tymhorol a lleol. Nod Plant+ oedd ysbrydoli pawb i gymryd rhan weithredol mewn symudiad tuag at ddeiet mwy seiliedig ar blanhigion drwy ddarparu pecynnau cymorth ac arweiniad i reolwyr arlwyo, llysgenhadon myfyrwyr ac athrawon. Cafwyd ymateb cadarnhaol i arolwg ar ôl tri mis o'r ymgyrch gan fod yr holl dimau arlwyo'n fodlon parhau i ddefnyddio ryseitiau Plant+ a hyrwyddo'r prydau'n frwd.



# Ein heffaith

TABL 2

**DOGNAU YCHWANEGOL O LYSIAU**

| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dognau ychwanegol o lysiau fel yr adroddwyd i Pys Plîs | n/a | 4.8 miliwn | 87 miliwn | 70.7 miliwn | 461.2 miliwn* | 147.6 miliwn |
| % y llysiau yn y fasged siopa (Kantar) | 7.2% | 7.3% | 7.1% | 7.0% | 7.0% | 7.0% |

**Sylwer bod y ffigur hwn wedi'i addasu i ystyried gwall cyfrifo a ddigwyddodd y llynedd*

Cafodd **771.4 MILIWN** o ddognau ychwanegol o lysiau eu gwerthu neu eu gweini gan addunedwyr yn ystod y rhaglen

## DOGNAU YCHWANEGOL O LYSIAU A GAFODD EU GWERTHU NEU EU GWEINI

Gan adeiladu ar lwyddiant y rhaglen mewn blynyddoedd blaenorol, mae ein haddunedwyr, ar y cyd, wedi gwerthu neu weini **771 miliwn o ddognau** yn y pum blynedd yr ydym wedi bod yn monitro cynnydd addunedwr Pys Plîs. Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi **ychwanegu 147 miliwn o ddognau** i'n cyfanswm. Er bod hyn yn gynnydd calonogol, mae'n ychwanegiad llawer llai at ein cyfanswm nag yn y flwyddyn adrodd flaenorol. Fel y mae pethau ar hyn o bryd mae'n ymddangos yn annhebygol y byddwn yn cyrraedd ein nod o werthu 3 biliwn o ddognau ychwanegol o lysiau erbyn 2023 os bydd cyfradd newid y flwyddyn adrodd 2022-23 yr un mor araf.

Gan edrych ar draws ein gwahanol sectorau, mae'n ddiddorol gweld tueddiadau gwahanol yn dod i'r amlwg. Ar draws y sector manwerthu, mae nifer y llysiau a adroddwyd i ni wedi gostwng o gymharu â'r llynedd – ar draws categorïau ffres a chyfansawdd. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu gwerthiannau yn symud o'r maes manwerthu ac yn ôl i'r sector y tu allan i'r cartref wrth i gyfyngiadau'r pandemig ddod i ben, ond gall hefyd ddangos bod cwsmeriaid yn prynu llai o lysiau a bwyd yn gyffredinol. Ategir hyn gan ostyngiad tebyg mewn gwerthiant llysiau a adroddwyd gan ein haddunedwyr gweithgynhyrchu. Ymhlith ein haddunedwyr o'r sector y tu allan i'r cartref, rydym yn gweld darlun mwy cadarnhaol. Efallai nad yw'n syndod bod y cadwyni bwytai hynny sy'n rhoi adroddiad eleni wedi gweld cynnydd mewn gwerthiant llysiau ers y llynedd. Nid yw'r darlun mor gadarnhaol ar gyfer arlwywyr sy'n parhau i fod yn is na'r hyn oeddynt cyn y pandemig.

***MAE EIN HADDUNEDWYR WEDI GWERTHU NEU WEINI 771 MILIWN O DDOGNAU YCHWANEGOL O LYSIAU***

Fodd bynnag, er bod cofnodi'r dognau ychwanegol o lysiau sy'n cael eu gwerthu neu eu gweini gan ein haddunedwyr yn un o'n metrigau craidd ni ddylid cymryd hyn fel mesur sy'n gynrychioliadol o gynnydd sector bwyd y DU o ystyried nad yw ein holl addunedwyr yn rhoi adroddiad i ni ar ddognau ar hyn o bryd (gweler Atodiad 1 am fanylion pellach), ac oherwydd bod cyfran y farchnad sydd gan ein haddunedwyr yn amrywio o sector i sector. **Mae'r ffaith nad yw'n orfodol i fusnesau yn y DU gyflwyno adroddiadau yn golygu bod cwmnïau'n anghyson wrth adrodd ar werthiannau categorïau bwyd penodol**. Amcangyfrifon gan Pys Plîs yw'r ffigurau dognau a adroddir yma yn seiliedig ar y data gorau sydd ar gael. I ategu'r rhain rydym yn defnyddio data a ddarparwyd yn garedig i'r rhaglen gan Kantar.

### BETH SY'N DIGWYDD AR DRAWS Y WLAD?

Pan lansiwyd Pys Plîs, llysiau oedd 7.2% o bwysau'r fasged siopa gyfartalog (Kantar). Gwyddom, fodd bynnag, er mwyn cyd-fynd â Chanllaw Bwyta'n Iach y llywodraeth, y dylai 20% o'r fasged siopa fod yn llysiau.

Fel y dengys Tabl 2, y flwyddyn adrodd hon (Gorffennaf 2021-Mehefin 2022) mae cyfran y fasged siopa sy'n llysiau wedi aros yn wastad ar 7.0% o'i dalgrynnu i'r pwynt degol agosaf. Fodd bynnag, mae cyfaint y llysiau a brynwyd wedi gostwng rhyw fymryn, o 7.04% y llynedd i 6.98% eleni. Er mai newidiadau canrannol bach iawn yw'r rhain, serch hynny mae'n

bosibl y byddant yn trosi'n gryn dipyn o lysiau ar lefel poblogaeth.

Dim ond cofnodi llysiau ffres, wedi'u rhewi, wedi'u hoeri, wedi'u paratoi a'r rhai mewn tun a wna'r ffigurau hyn, ac felly nid ydynt yn cynnwys peth o'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan ein haddunedwyr sy'n fanwerthwyr o ran eu prydau parod a chynhyrchion eraill sy'n gynhyrchion cyfansawdd ac wedi'u pecynnu. Dim ond gwerthiannau nwyddau groser manwerthwyr y mae Kantar yn eu cofnodi ac nid ydynt yn cynnwys llysiau a weinir gan arlwywyr a bwytai cadwyn anffurfiol yn y sector y Tu Allan i'r Cartref, na llysiau a werthir yn uniongyrchol i ddinasyddion, er enghraifft cynlluniau bocsys llysiau.

Serch hynny, mae'r ffigurau hyn yn dangos bod digon o le i bawb barhau i hyrwyddo llysiau'n well os ydym am gyflawni'r argymhellion yn y Canllaw Bwyta'n Iach. Mae angen gweithredu ar frys i sicrhau nad yw'r argyfwng costau byw yn golygu na all aelwydydd fforddio prynu bwyd iach sylfaenol mwyach. Mae cyfran y fasged sy'n llysiau bellach yn is nag ar ddechrau Pys Plîs, gyda'r gostyngiad bach eleni yn gwrthdroi unrhyw enillion ymylol a welsom y llynedd (lley cynyddodd cyfran y fasged o 6.98% i 7.05%).

## MAE ANGHYDRADDOLDEB O RAN LLYSIAU YN PARHAU I FOD YN BRYDER DIFRIFOL

Yr hyn sy'n peri pryder arbennig yw bod anghydraddoldebau deietegol yn parhau i ehangu. Ymhlith y rhai sy'n ennill llai na £10,000, gostyngodd cyfran y fasged siopa sy'n llysiau o 5.9% i 5.8% eleni o gymharu â'r rhai sy'n ennill dros £70,000, lle yr arhosodd y gyfran yn sefydlog ar 8.4% (Kantar, 2022).

Mae data o arolwg Gwariant Teuluol diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol a gynhaliwyd yn 2020, yn dangos, hyd yn oed cyn y cynnydd mewn prisiau bwyd ac ynni, fod yr aelwydydd hynny sydd ymysg y 10% â'r incwm gwario uchaf yn gwario ddwywaith cymaint ar lysiau â'r rhai yn y degradd isaf (Ffigur 3). Felly mae angen cymorth wedi'i dargedu i sicrhau bod cartrefi tlotaf y DU yn dal i allu cael gafael ar lysiau a fforddio llysiau er mwyn atal yr anghydraddoldebau presennol mewn deiet rhag ehangu ymhellach.




Mae data basged Kantar yn dangos yr un duedd â'r data gwerthiant a ddarparwyd drwy garedigrwydd IRI, a ddadansoddwyd gan ein sefydliad partner Nerth Llysiau, sy'n dangos, fel canran o'r holl werthiannau bwyd manwerthu, fod cyfran y gwerthiannau bwyd sy'n llysiau wedi gostwng 0.4% yn ystod yr un cyfnod o amser. Er bod nifer o adroddiadau ar hyn o bryd sy'n awgrymu bod gwerthiannau rhai mathau o lysiau, megis llysiau di-siâp, wedi cynyddu, mae'r rhain yn aml yn dibynnu ar ddata refeniw yn hytrach na chyfaint ac felly'n cynnwys effeithiau chwyddiant cynyddol. Yn gyffredinol, mae'r darlun sy'n dod i'r amlwg yn un lle mae gwerthiant cyfaint yr holl fwydydd yn gostwng wrth i'r argyfwng costau byw barhau i frathu (Baker, 2022). Er ei bod yn rhy gynnar i ddweud yn bendant a yw'n effeithio ar unrhyw gategorïau penodol, yn ôl rhai ffynonellau, bwydydd ffres sy'n cael eu taro waethaf (Reuters, 2022). Mae gan hyn oblygiadau amlwg i lysiau.



FFIGUR 4

### GWARIANT CYFARTALOG BLYNYDDOL AR LYSIAU FESUL DEGRADD INCWM GWARIO AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL YN DIWEDDU 2020 (ONS, 2021).




*Noder bod niferoedd IRI yn seiliedig ar ddiffiniad Nerth Llysiau o lysiau

# RHAN DAU
# EIN GWAITH GYDA DINASOEDD A DINASYDDION

## Hyrwyddwyr Llysiau

Mae Hyrwyddwyr Llysiau yn gweithio gyda ni i hyrwyddo ein cenhadaeth o fwyta mwy o lysiau, gan gyfrannu eu profiadau personol o gael gafael ar lysiau a'u cynnwys ym mhopeth a wnawn. Mae eleni wedi bod yn flwyddyn brysur i'r Hyrwyddwyr gyda Pys Plîs yn dyfarnu 100 o ficro-grantiau i gefnogi'r Hyrwyddwyr i gynnal eu gweithgareddau llysiau eu hunain, yn ogystal â pharhau i gefnogi'r rhaglen yn fwy cyffredinol.

### GWEITHGAREDDAU HYRWYDDWYR LLYSIAU

Ym mis Mawrth 2022 lansiwyd ein Rhaglen Grantiau Bach yn ystod digwyddiad ar-lein gyda'r Hyrwyddwyr Llysiau. Gwahoddwyd hyrwyddwyr i wneud cais am grantiau o hyd at £200 y person, i gynnal digwyddiad neu weithgaredd a oedd yn annog bwyta llysiau yn eu cymuned leol. Gallai Hyrwyddwyr Llysiau yn yr un ardal leol wneud cais gyda'i gilydd.

**Dyfarnwyd cant o grantiau £200, gan gyfrannu at gostau 59 o weithgareddau.** Mae'r rhain wedi bod yn amrywiol, gyda grantiau'n mynd i'r afael â materion yn amrywio o wastraff bwyd i sgiliau coginio, hybu tyfu ac iechyd a maeth, ac wedi'u lleoli mewn lleoliadau yn amrywio o feithrinfeydd ac ysgolion i erddi cymunedol, caffis a siopau.

### VEG AND GROWERS MENU, PRESTON, SWYDD GAERHIRFRYN

Daeth tri Hyrwyddwr Bwyd at ei gilydd i dreialu menter sy'n cysylltu ffermwyr lleol â phobl sy'n byw yn Preston, gyda'r bwriad o dalu pris teg i ffermwyr am eu cynnyrch a hyrwyddo llysiau tymhorol drwy ryseitiau syml a hawdd.




Gan ddefnyddio cyllid o Raglen Grantiau Bach Pys Plîs, mae'r Hyrwyddwyr Llysiau hyn wedi bod yn hyrwyddo pryd misol ar y fwydlen yn The Larder - caffi menter gymdeithasol, canolfan gelfyddydol a chymunedol yn Preston gyda'r nod o sicrhau 'tegwch bwyd i bawb'. Mae pob pryd wedi cynnwys llysieuyn tymhorol penodol; hyd yn hyn, llysiau'r gwanwyn, corbwmpenni a blodfresych. Mae'r Hyrwyddwyr Llysiau hefyd wedi dylunio ac wedi argraffu cardiau ryseitiau sy'n cynnwys bywgraffiad byr o'r ffermwr a dyfodd y llysieuyn, sy'n cael eu rhannu yn y caffi ac ar draws y cyfryngau cymdeithasol.

### PROSIECT FUN GARDENING, BELFAST, GOGLEDD IWERDDON

Mae un o Hyrwyddwyr Llysiau Gogledd Iwerddon, Camilla, wedi ymuno â gerddi cymunedol lleol yn Belfast i greu cyfleoedd i bobl allu defnyddio gerddi cymunedol a dysgu am dyfu eu llysiau eu hunain. Crëwyd y prosiect – Fun Gardening - i ymgysylltu â'r cymunedau lloches a ffoaduriaid, gweithwyr mudol a chymunedau lleiafrifoedd ethnig eraill yn Belfast, i'w cyflwyno i fanteision niferus tyfu eu llysiau eu hunain a chreu amgylchedd croesawgar i'r ddinas.



Drwy grant gan Raglen Grantiau Bach Pys Plîs, llwyddodd y Prosiect i drefnu pedwar ymweliad â gerddi cymunedol ar draws y ddinas (Gogledd, De, Dwyrain a Gorllewin). Roedd pob digwyddiad yn cynnwys gweithgareddau addysgol ymarferol, plannu llysiau, arbed hadau a rhannu pryd o lysiau blasus a ddarparwyd gan yr ardd oedd yn croesawu. Anogwyd y rhai a oedd yn bresennol i fynd â thoriadau/hadau i'w tyfu gartref a dod yn ôl i'r gerddi ar gyfer cyfleoedd a gwirfoddoli yn y dyfodol.

HYRWYDDWR LLYSIAU
Pys Plîs
Mwy o Lysiau
PYS PLÎS

## **CAFFI CYMUNEDOL CEGIN HEDYN,** SIR GAERFYRDDIN, CYMRU

Daeth Alex Cook, Hyrwyddwr Llysiau yn Sir Gaerfyrddin, â chogyddion lleol a thyfwyr llysiau lleol ynghyd gyda'r nod o drafod yr heriau y maent yn eu hwynebu yn y gweithle, rhannu ryseitiau a syniadau am wasanaethau. Roedd y noson yn canolbwyntio ar rannu ffyrdd o ddefnyddio a hyrwyddo cynnyrch tymhorol anhygoel y gymuned dyfu leol

Daeth gwesteion ynghyd ar nos Lun i gael pryd o fwyd am ddim a baratowyd gan wirfoddolwyr a oedd yn arddangos cynnyrch lleol gwych. Rhoddwyd rhestr gynhwysfawr o gyflenwyr lleol i bawb a oedd yn bresennol. Rhannwyd syniadau am sut i gynyddu faint o lysiau lleol sydd ar fwydlenni o'r hyn sydd ar gael a'r gorau yn y tymor, i gyngor busnes ar sut i gynnal gwerth ar fwydlenni a chynyddu'r llysiau sydd wedi'u cynnwys ynddynt ar yr un pryd.

Roedd amrywiaeth eang o gogyddion lleol, cyflwynwyr cogyddion teledu, tyfwyr masnachol, tyfwyr cymunedol a rheolwyr bwytai/lleoliad yn bresennol. Gwahoddwyd cogyddion sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus ond yn anffodus nid oedd yr un ohonynt yn gallu dod i'r cyfarfod cyntaf.

Bydd hwn yn gyfarfod chwarterol gyda'r gobaith o gyd-greu Sir Gaerfyrddin fel cyrchfan fwyd drwy ddefnyddio pŵer cynnyrch Cymreig lleol, tymhorol a chynaliadwy. Ochr yn ochr â'r agwedd gymdeithasol, mae Alex yn bwriadu; cefnogi iechyd a llesiant cogyddion drwy gyfeirio at gefnogaeth sefydliadol a chymorth gan gymheiriaid, a chreu gwytnwch cymunedol drwy werth economaidd a chyd-greu ymgyrch farchnata i gyflawni hyn.




## YMGYSYLLTU Â'R SECTOR Y TU ALLAN I'R CARTREF

Fel rhan o Weithgaredd y Tu Allan i'r Cartref, roedd Hyrwyddwyr Llysiau yn yr Alban yn gallu cydweithio â Food Standards Scotland (FSS) ac archwilio'r ddarpariaeth llysiau mewn sefydliadau y Tu Allan i'r Cartref. Canolbwyntiwyd ar fwydlenni plant. Darparodd yr ymgysylltu hwn dystiolaeth werthfawr ar gyfer ffrydiau gwaith FSS yn ymwneud â gwella amgylchedd y Tu Allan i'r Cartref ac roedd yn cefnogi datblygiad cod ymarfer ar gyfer bwydlen plant sydd ar y gweill fel rhan o Gynllun Gweithredu Llywodraeth yr Alban.

**Ymwelwyd â 31 o sefydliadau y tu allan i'r cartref: Darparodd Hyrwyddwyr Llysiau adborth adeiladol ar sut y gellir gwella bwydlenni plant, o ran ansawdd maeth ac ystod y dewis**. Dywedodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr fod llysiau ar gael o fewn bwydlenni plant, fodd bynnag, gwnaethant awgrymiadau fel gwella edrychiad y fwydlen i wneud llysiau'n fwy deniadol, cynyddu opsiynau llysieuol a'r amrywiaeth o lysiau a gynigir, a sicrhau na ofynnir i blant ddewis rhwng llysiau ac ychwanegiadau eraill, fel sglodion.

Roedd y gweithgaredd hwn hefyd yn gyfle i Hyrwyddwyr Llysiau gwrdd â ffrindiau, teulu a Hyrwyddwyr Llysiau eraill. Roedd yn caniatáu i bobl ag adnoddau cyfyngedig iawn fwynhau amser hamddenol. Roedd ambell deulu yn gallu dathlu penblwyddi na fyddai wedi bod yn bosibl mewn amgylchiadau eraill. Fe wnaeth hyn ein helpu i ystyried arwyddocâd mynd allan am bryd o fwyd a sut y gall hyn fod yn foethusrwydd go iawn i lawer o bobl.



### MAE HYRWYDDWYR NAWR YN EIN CEFNOGI GYDA'N GWERTHUSIAD O PYS PLÎS

Mae deg o'n Hyrwyddwyr Llysiau bellach yn gweithio fel dogfenwyr, yn gweithio ochr yn ochr â City University i werthuso'r effaith y mae'r rhaglen Hyrwyddwyr Llysiau wedi'i chael ac ystyried a ydym wedi bod yn llwyddiannus wrth gyflwyno model dinesydd cyfranogol.

### ADBORTH YR HYRWYDDWYR LLYSIAU AR Y DIGWYDDIADAU GRŴP A'R RHAGLEN HYD YN HYN

*“Roedd pob sgwrs yn cynnig syniadau ac atebion newydd”*

*“Rwyf bellach yn Gydlynydd Dinas Llysiau ac mae hynny i gyd yn deillio o fod yn Hyrwyddwr Llysiau”*

*“Rwyf wedi dysgu cymaint. Clywed beth mae pobl eraill yn ei wneud yw'r gic sydd ei hangen arnaf”*

*“Mae wedi bod mor ysbrydoledig a nawr rwy'n teimlo fy mod wedi fy ysgogi i fynd i wneud rhywbeth”*

**Dilynwch ein Hyrwyddwyr Llysiau ar Instagram @veg.advocates ac ar TikTok @peaspleaseproject**

# Dinasoedd Llysiau

Cydlynir menter Dinasoedd Llysiau gan ein partner Lleoedd Bwyd Cynaliadwy. Mae sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y fenter Dinasoedd Llysiau yn cwmpasu ystod o wahanol feysydd, gan gynnwys ysgolion a grwpiau cymunedol, bwytai, arlwywyr, cynghorau a mentrau tyfu bwyd. Ar ôl y rownd gyllido ddiweddaraf yn 2021, dyfarnwyd cyllid Dinasoedd Llysiau i 7 lle.

O ganlyniad i'r ymdrech hon, mae 9.6 miliwn o ddognau o lysiau wedi cael eu gweini dros y pedair blynedd diwethaf gan Dinasoedd Llysiau.

Cyrhaeddwyd nifer fawr o bobl yn uniongyrchol fel rhan o fentrau sy'n cael eu cynnal gan Dinasoedd Llysiau:

**605,331** o bobl wedi eu cyrraedd yn uniongyrchol drwy weithgareddau hyrwyddo llysiau

**18,070** o bobl wedi cymryd rhan mewn dosbarthiadau tyfu a choginio

**598** o erddi wedi'u sefydlu neu eu cefnogi fel rhan o greu rhwydwaith o fannau tyfu

**392** o fentrau wedi'u sefydlu i fonitro a lleihau gwastraff bwyd

**32** o farchnadoedd a stondinau llysiau a ffrwythau wedi'u sefydlu.

## LEEDS

Mae FoodWise Leeds yn gweithio gyda phartneriaid lleol i annog tyfu, gwerthu, rhannu, coginio, bwyta a chompostio llysiau ledled Leeds ers 2017. Mae cyfanswm o 28 o gyfranogwyr wedi gwneud 43 o addunedau am fwy o lysiau hyd yma. Mae Leeds wedi ymgorffori Dinasoedd Llysiau ar draws mentrau presennol megis yn y rhaglen Gwyliau Iach ac wedi treialu dulliau arloesol megis Llyfrgelloedd Llysiau Bach, Sow a Row Xtra neu Flychau Llysiau Cychwyn Iach.

Mewn cydweithrediad â Chyngor Dinas Leeds, Prifysgol Leads a Climate Action Leeds, mae FoodWise wedi lansio canolfan ryseitiau newydd i rannu ryseitiau maethlon a fforddiadwy blasus i bawb a thynnu sylw at yr ôl troed carbon fesul dogn. Mae'r ganolfan yn adeiladu ar ei gwaith blaenorol gyda'r gymuned a'u hymgyrch #JustOneMore, mae'r ganolfan ar-lein hefyd yn annog defnyddwyr i ychwanegu mwy o lysiau at eu seigiau.

Credir mai dyma'r ganolfan ryseitiau gyntaf i gynnwys cyfrifiad carbon ar gyfer pob rysáit a ychwanegir. Mae'r cyfrifiadau hyn wedi'u gwneud gan ddefnyddio Cyfrifiannell Ôl Troed Carbon y Ganolfan Ymchwil Data Defnyddwyr (CDRC) ym Mhrifysgol Leeds. Mae'r wybodaeth hon wedi'i darparu i helpu i feithrin mwy o ddealltwriaeth a chefnogi sgyrsiau pellach am gynaliadwyedd ac effaith carbon y bwyd rydym yn ei fwyta.

Drwy wneud newidiadau bach i'r hyn rydym yn ei fwyta, a chynnal deiet maethlon a chytbwys, gallwn wneud gwahaniaethau mawr i'n hôl troed carbon unigol. Er enghraifft, drwy ddewis llysiau a ffrwythau tymhorol a/neu wedi'u tyfu'n lleol lle bo modd.

Peas Please
Making a pledge for more veg

# Ein heffaith allanol

## RHAI CYFEIRIADAU NODEDIG AT PYS PLÎS YN YSTOD Y FLWYDDYN DDIWETHAF



Food Standards Agency
food.gov.uk

A rapid evidence assessment of UK citizen and industry understandings of sustainability

Why our understanding of sustainable food is important when making food choices.

June 2022

**Roedd adroddiad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd** a oedd yn edrych ar agweddau defnyddwyr tuag at ddeiet cynaliadwy yn cyfeirio at rywfaint o'n gwaith gyda dinasyddion yn edrych ar fforddiadwyedd llysiau.


Northern Ireland Food Strategy Framework

Food at the Heart of our Society - A Prospectus for Change
Public Consultation Document
2021

**Roedd y Northern Ireland Food Strategy Framework** yn cyfeirio at ystadegau **Ffeithiau am Lysiau 2021**.




Roedd diweddariad strategaeth Llywodraeth Cymru ***Pwysau Iach, Cymru Iach*** yn datgan y bydd yn cefnogi Pys Plîs i weithio gydag arlwywyr a busnesau i gynyddu'r ffrwythau a'r llysiau a fwyteir o fewn opsiynau prydau bwyd. Mae hyn yn rhan o ffocws blaenoriaeth genedlaethol ar ddiffinio'r amgylchedd bwyd a diod tuag at ddewisiadau cynaliadwy ac iachach.


nature food

Explore content | About the journal | Publish with us

nature > nature food > news & views > article

News & Views | Published: 16 December 2021

PLANETARY HEALTH

**A natural experiment of dietary change**

Pauline F. D. Scheelbeek

*Nature Food* 2, 916–917 (2021) | Cite this article

1135 Accesses | 5 Altmetric | Metrics

**Social disruption during the COVID-19 pandemic triggered highly varied changes in diet and lifestyle. It has offered a unique opportunity to study drivers of behaviour change in the general population, building the crucial evidence base needed to tackle major challenges for transforming food systems.**

**Roedd darn o sylwebaeth yn** Nature Food yn cyfeirio at ein gwaith yn edrych ar y cynnydd mewn blychau llysiau yn ystod y pandemig.

TOKYO
NUTRITION FOR GROWTH
SUMMIT 2021
Diet, Health, & Prosperity for All

Cymerodd Pys Plîs ran mewn dau ddigwyddiad ymylol swyddogol yn Uwchgynhadledd 2021 *Nutrition for Growth*. Trefnwyd panel gennym yn rhannu gwersi a ddysgwyd o sefydlu Pys Plîs fel menter aml-randdeiliad a thrafododd Sainsbury's ei thaith Pys Plîs a chyhoeddi ei hymrwymiadau N4G i iechyd a maeth gwell fel rhan o ddigwyddiad panel rhyngwladol.

# RHAN TRI
# EIN HEFFAITH AR BOLISI

## Polisi

### PAPURAU GWYN Y STRATEGAETH FWYD GENEDLAETHOL A FFYNIANT BRO

Roedd papur gwyn Strategaeth Fwyd llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd mewn ymateb i Strategaeth Fwyd Genedlaethol annibynnol Lloegr, ar y cyfan yn siomedig – yn methu â symud ymlaen â'r strategaeth uchelgeisiol sydd ei hangen i drosglwyddo'r system fwyd tuag at gyflenwi bwyd iach a chynaliadwy. Fodd bynnag, mae'r papur gwyn wedi ymrwymo i sawl polisi y mae Pys Plîs a'r Gynghrair Ffrwythau a Llysiau (cynghrair o gynhyrchwyr ffrwythau a llysiau, a sefydlwyd gan Pys Plîs) wedi bod yn ei hyrwyddo ers nifer o flynyddoedd. Roedd hon yn fuddugoliaeth arwyddocaol i Pys Plîs, gydag ymrwymiadau gan y llywodraeth i gyflwyno:



- strategaeth arddwriaeth newydd ar gyfer Lloegr
- safonau prynu gorfodol ar gyfer bwyd ym mhob lleoliad yn y sector cyhoeddus
- adroddiadau busnes gorfodol, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i bob busnes dros faint penodol adrodd yn dryloyw ar y gyfran o werthiannau sy'n llysiau

O'u gweithredu byddai'r polisïau hyn yn cefnogi tyfwyr a busnesau sy'n ymdrin â defnyddwyr i dyfu, gweini a gwerthu mwy o lysiau. **Er ein bod yn croesawu'r ymrwymiadau hyn, heb ddulliau rheoleiddio cadarn i sicrhau y gellir eu cyflawni a'u gorfodi, nid oes gan y cynigion y dylanwad a fydd yn angenrheidiol i gael effaith wirioneddol**.

Yn yr un modd, rhaid i'r llywodraeth newydd ymrwymo i weithredu'r polisïau a gyflwynwyd yn y papur gwyn Ffyniant Bro a gyflwynwyd pan oedd Boris Johnson yn Brif Weinidog. Ymrwymodd hwn i gefnogi dinasyddion i gael gafael ar ffrwythau a llysiau drwy gynllun peilot presgripsiwn Community Eatwell mewn ardaloedd incwm isel, yn ogystal ag annog addysg blas synhwyraidd i blant ysgol. Mae'r ddau hyn yn bolisïau y mae Pys Plîs yn eu cefnogi.

### DEDDF CENEDL BWYD DA

Ym mis Mehefin 2021 pasiwyd Bil Cenedl Bwyd Da (Good Food Nation) yn Senedd yr Alban gyda chefnogaeth unfrydol. Mae pasio'r Bil yn benllanw blynyddoedd lawer o waith gan ein partneriaid yn yr Alban, sef Nourish Scotland. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion yr Alban, awdurdodau lleol a byrddau iechyd baratoi cynlluniau bwyd. Bydd angen i'r cyrff hyn roi sylw i'r hawl i fwyd wrth baratoi eu cynlluniau, ac ystyried sawl agwedd ar y system: yr amgylchedd, iechyd, tlodi, i enwi dim ond rhai. Yn olaf, mae'r Bil yn sefydlu Comisiwn Bwyd annibynnol, i gynnig cyngor a chraffu ar gynnydd. Mae'r Bil hwn yn garreg filltir ym mholisi bwyd yr Alban (a'r DU), ac yn rheswm i ddathlu.

## CYCHWYN IACH A'R CYCHWYN GORAU

Mae Pys Plîs wedi parhau i weithio gyda manwerthwyr a'r llywodraeth i eiriol dros gefnogaeth barhaus i'r cynllun Cychwyn Iach (Best Start yn yr Alban). Rydym wedi cynnal nifer o gyfarfodydd gyda manwerthwyr yn y DU i archwilio'r potensial ar gyfer ychwanegu gwerth at y cynllun ar ei ffurf ddigidol newydd, ac yn yr Alban mae ein haddunedwyr manwerthu wedi cefnogi tîm Best Start yn ei werthusiad diweddar o'r cynllun. **Mae ymchwil gan Brifysgolion Leeds a Birmingham yn gwerthuso cynigion gwerth ychwanegol Sainsbury's a Lidl ar wahân yn ystod 2020-21 wedi canfod bod y ddau ddull wedi effeithio'n sylweddol ar y swm a wariwyd ar ffrwythau a llysiau**. Felly mae Cychwyn Iach yn parhau i fod yn llwybr effeithiol i gefnogi grwpiau incwm isel i gael gafael ar ffrwythau a llysiau.

Er bod hyn yn dal i fod yn dechnegol heriol i'w wneud gan fod y rhai sy'n ei dderbyn bellach yn cael arian ar Mastercard, roeddem yn falch iawn o weld Sainsbury's yn ailgyflwyno ei gwpon o £2 ar gyfer Cychwyn Iach ym mis Hydref. Mae 4 miliwn o blant bellach yn byw mewn cartrefi sydd â diffyg diogeled bwyd (Food Foundation, 2022), felly ni fu erioed amser pwysicach i ychwanegu gwerth at y cynllun. **Yn lle gallu ychwanegu gwerth ariannol at Cychwyn Iach, byddem yn annog pob manwerthwr i gefnogi cyfleu'r cynllun i gwsmeriaid o ystyried bod y nifer sy'n manteisio arno'n parhau yn isel**.

Mae Iceland yn enghraifft wych o ddefnyddio cyfathrebu a marchnata'n greadigol i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun: bydd 81 miliwn o boteli llaeth eu brand eu hunain yn hysbysebu'r cynllun Cychwyn Iach yn Lloegr, a bydd 9 miliwn arall yn cynnwys gwybodaeth am gynllun Best Start yn siopau Iceland yr Alban. Mae'r manwerthwr hefyd wedi creu faniau danfon i'r cartref yn arbennig ar gyfer yr ymgyrch, a fydd yn dosbarthu mewn ardaloedd lle mae nifer bach o bobl yn defnyddio Cychwyn Iach ledled y DU. O fis Medi 2022, bydd ail gam yr ymgyrch hefyd yn gweld Bwydydd Cychwyn Iach a Best Start yn cael eu hyrwyddo ar 100 miliwn o becynnau o ffrwythau a llysiau wedi'u rhewi dros y ddwy flynedd nesaf – bydd partneriaeth â Del Monte hefyd yn golygu bod y cynllun Cychwyn Iach ar 4.6 miliwn o becynnau'r brand o gynhyrchion ffrwythau wedi'u rhewi.



## POLISI GARDDWRIAETH

Mae'r gynghrair Ffrwythau a Llysiau yn parhau i fynd o nerth i nerth, gan gyfrannu at fwrdd crwn garddwriaeth fwytadwy DEFRA bob tri mis.

Y llynedd fe wnaethom gyflwyno papur trafod i dimau DEFRA sy'n gweithio ar ddeiet iach, cynaliadwy a phapur gwyn y Strategaeth Fwyd, gan rannu ein gwersi a'n hargymhellion ar gyfer ffyrdd y gall busnesau a llywodraeth y DU weithio i gynyddu faint o ffrwythau a llysiau a fwyteir. Ein gobaith yw bod hyn wedi effeithio ar ymrwymiad y llywodraeth i weithredu strategaeth arddwriaeth yn Lloegr, sy'n gyfle gwych i sicrhau gwell cyfatebiaeth rhwng cynhyrchiant a defnydd.

Ym mis Ebrill, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai £227 miliwn ar gael dros y tair blynedd nesaf i gefnogi cadernid economi wledig Cymru a'i hamgylchedd naturiol – gan gynnwys cynlluniau i gefnogi sector garddwriaeth Cymru. Cafodd y prosiect garddwriaeth ar raddfa fach a ariannwyd gan Pys Plîs a gwaith y Gynghrair Garddwriaeth ddylanwad ar y penderfyniad ariannu hwn.

Yn yr Alban, mae Pys Plîs wedi bod yn ymchwilio i weld a allai sianelu cyllid drwy awdurdodau lleol fod yn ffordd ddefnyddiol o gefnogi'r gwaith o ehangu garddwriaeth drefol. Mae'r Partneriaid Nourish Scotland wedi bod yn dadlau'r achos dros fuddsoddi mewn sgiliau, tir a chyllid er mwyn ehangu garddio marchnad a thai gwydr lle ceir amgylchedd rheoledig. Mae prosiect peilot wedi cychwyn yn Rhanbarth Ucheldir yr Alban.

# Gwersi allweddol a'r camau nesaf

Wrth i ni gyrraedd pedwaredd flwyddyn a blwyddyn olaf arian y Loteri, mae cynnal cefnogaeth yn y DU ar gyfer cynhyrchu a bwyta llysiau yn parhau i fod yn gwbl hanfodol, hyd yn oed wrth i ni ddechrau meddwl am yr hyn y mae angen i'r agenda lysiau ganolbwyntio arno wrth symud ymlaen at barhau i fod yn berthnasol y tu hwnt i 2023.

Mae Covid-19 wedi trawsnewid y ffordd y mae llawer ohonom sy'n gweithio ac yn bwyta, yn syth ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, ac mae hynny'n parhau i effeithio ar gadwyni cyflenwi a'r gweithluoedd garddwriaethol a lletygarwch. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld prisiau bwyd ar eu lefel uchaf ers 30 mlynedd, gydag argyfwng costau byw yn gwthio llawer a oedd prin yn ymdopi i dlodi a diffyg diogeledd bwyd. Yn y cyfamser, mae ymddygiad dinasyddion hefyd wedi newid, gyda phryderon ynghylch newid yn yr hinsawdd yn codi'r galw am gynnyrch mwy cynaliadwy o blanhigion i lefelau newydd. Mae'r agenda llysiau yn parhau i esblygu, hyd yn oed wrth i werthiant llysiau aros yn ei unfan.



Ymhlith addunedau camau gweithredu diriaethol cymunedol Pys Plîs y gellir eu cymryd i gefnogi ein cenhadaeth mae;

1. **gwneud yn siŵr bod holl ymrwymiadau Pys Plîs wedi'u cyflawni erbyn Mehefin 2023**

2. **cefnogi'r bwriad i weithredu adrodd gorfodol trwy'r Bartneriaeth Tryloywder Data Bwyd (FDTP). Dim ond pan fydd tegwch y gallwn asesu cynnydd busnes yn effeithiol a gosod cyfeiriad ar gyfer gwerthiant llysiau.**

3. **gweithio i sicrhau bod llysiau mor hygyrch a fforddiadwy â phosibl i ddinasyddion incwm isel a phobl nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol**

Dros y pum mlynedd diwethaf rydym eisoes wedi helpu i wneud gwahaniaeth. Drwy fynd y filltir olaf gyda'n gilydd ym mlwyddyn olaf Pys Plîs gallwn adeiladu sylfaen gref ar gyfer y dyfodol, ac atal yr argyfwng costau byw rhag effeithio ymhellach ar faint o lysiau y gall aelwydydd eu cael.

# Atodiad

Rydym wedi grwpio ein haddunedwyr yn ôl sector, yn unol â'n **fframwaith ymrwymiadau**, ac mae'r camau gweithredu y mae sefydliadau yn ymrwymo iddynt fel rhan o'u haddunedau yn amrywio yn dibynnu ar fodel busnes a sector y sefydliad. Gellir gweld dadansoddiad manwl o'r addunedau ar **ficrowefan Pys Plîs**. Caiff addunedwyr eu hepgor o'r rhaglen Pys Plîs os na cheir adroddiad am ddwy flynedd yn olynol neu os na all addunedwyr gefnogi'r cynllun mwyach.

**DIFFINNIR Y SGÔR GOLEUADAU TRAFFIG FEL A GANLYN:**

- ● **DU:** DIM ADRODDIAD GAN YR ADDUNEDWR
- ● **LLWYD:** BLWYDDYN ADRODD GYNTAF (ADRODDIR AR Y SGÔR Y FLWYDDYN NESAF)
- ● **COCH:** CYNNYDD CYFYNGEDIG
- ● **OREN:** DECHRAU DA
- ● **MELYN:** AR Y FFORDD TUAG AT LWYDDIANT
- ● **GWYRDD:** WEDI CYFLAWNI'R HOLL YMRWYMIADAU'N LLAWN.

## DYLANWADWYR Y SYSTEM

*1.3% (cyfran ein cyfanswm cronnol o ddognau a gyfrannwyd gan ein haddunedwyr sy'n ddylanwadwyr y system)*

| ADDUNEDWR | GOLAU TRAFFIG | |
|---|---|---|
| | CYNNYDD CYFFREDINOL | CYNNYDD O RAN DOGNAU |
| ACS | ● (GWYRDD) | Dd/B |
| Bags of Taste | ● (GWYRDD) | Dd/B |
| Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned | ● (MELYN) | Dd/B |
| Bwyd a Hwyl | ● (GWYRDD) | ● (GWYRDD) |
| Food Standards Scotland (FSS) | ● (LLWYD) | Dd/B |
| GroentenFruit Huis | Wedi'i ddileu - cyllid wedi dod i ben | |
| Fforwm Garddwriaeth | ● (OREN) | Dd/B |
| Lantra | ● (GWYRDD) | Dd/B |
| Fferm MillBank | ● (MELYN) | Nid yw'n adrodd |
| Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol | ● (OREN) | Dd/B |
| Cymdeithas y Pridd | ● (GWYRDD) | Dd/B |
| Lleoedd Bwyd Cynaliadwy | ● (MELYN) | ● (MELYN) |
| Y Gymdeithas Bwytai Cynaliadwy | ● (OREN) | Dd/B |
| TastEd | ● (MELYN) | Dd/B |
| TUCO | ● (MELYN) | Dd/B |
| Undeb Ffermwyr Ulster | ● (DU) | Dd/B |
| WRAP | ● (MELYN) | Dd/B |

## MANWERTHWYR

*81.5% (cyfran o gyfanswm cronnol y dognau a gyfrannwyd gan ein haddunedwyr sy'n fanwerthwr)*

| ADDUNEDWR | GOLAU TRAFFIG | |
|---|---|---|
| | CYNNYDD CYFFREDINOL | CYNNYDD O RAN DOGNAU |
| Aldi | 🟡 | 🟡 |
| Asda | ⚫ | Nid yw'n adrodd |
| Co-op | 🟡 | Nid yw'n adrodd |
| Henderson Group/SPAR NI | 🟢 | 🟢 |
| Lidl | 🟡 | Llinell sylfaen |
| Morrisons | ⚪ | ⚪ |
| Ocado | ⚪ | ⚪ |
| Sainsbury's | 🟡 | 🟡 |
| Simply Fresh | Wedi'i ddileu | |
| Tesco | 🟡 | 🟡 |
| Waitrose | 🟡 | Llinell sylfaen |

## ODDI ALLAN I'R CARTREF - ARLWYWYR CONTRACT

*7.1% (cyfran o gyfanswm cronnol y dognau a gyfrannwyd gan ein haddunedwyr sy'n arlwywyr contract)*

| PLEDGER | GOLAU TRAFFIG | |
|---|---|---|
| | CYNNYDD CYFFREDINOL | CYNNYDD O RAN DOGNAU |
| A & J Catering | ⚫ | ⚫ |
| Bartlett Mitchell | 🔴 | 🔴 |
| Blackpool Catering Services | 🟡 | 🟢 |
| Caterlink | 🟢 | 🟢 |
| CEC catering | ⚫ | ⚫ |
| Compass Group | 🟠 | 🔴 |
| Gwasanaethau Arlwyo Cyngor Sir Hampshire (HC3S) | 🟡 | 🟡 |
| Havering Catering Services | 🟠 | 🟠 |
| ISS | Addunedwyd | |
| Olive Catering | ⚫ | ⚫ |
| Sodexo | 🔴 | 🔴 |
| Vacherin | Wedi'i ddileu - O dan berchnogaeth newydd | |
| Vertas | ⚫ | ⚫ |

## ODDI ALLAN I'R CARTREF - BWYTAI CADWYN Y STRYD FAWR

*2.9% (cyfran o gyfanswm cronnol y dognau a gyfrannwyd gan ein haddunedwyr sy'n fwytai cadwyn y stryd fawr)*

| ADDUNEDWR | GOLAU TRAFFIG | |
|---|---|---|
| | CYNNYDD CYFFREDINOL | CYNNYDD O RAN DOGNAU |
| Ask Italian | 🟢 | 🟢 |
| Brewers Fayre (Whitbread) | 🟢 | 🟡 |
| Giraffe | 🟢 | 🟢 |
| Greggs PLC | 🟢 | 🟢 |
| Harvester (Mitchells & Butlers) | 🟢 | 🔴 |
| Hungry Horse (Greene King) | 🟢 | 🟢 |
| JD Wetherspoon | 🟢 | 🟢 |
| Leon | ⚫ | ⚫ |
| Prezzo | ⚫ | ⚫ |
| Subway | ⚪ | ⚪ |
| Zizzi | 🟡 | 🟡 |

## LLEOLIADAU DIGWYDDIADAU, GWEITHLEOEDD A CHAFFAELWYR CYHOEDDUS

*0.03% (cyfran ein cyfanswm cronnol o ddognau a gyfrannwyd gan ein haddunedwyr sy'n ofod digwyddiadau, gweithleoedd a chaffaelwyr cyhoeddus)*

| ADDUNEDWR | GOLAU TRAFFIG | |
|---|---|---|
| | CYNNYDD CYFFREDINOL | CYNNYDD O RAN DOGNAU |
| Aramark Prifysgol Robert Gordon | ⚫ | ⚫ |
| Aramark Prifysgol San Steffan | ⚫ | ⚫ |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 🟡 | Nid yw'n adrodd |
| Dynamic Earth | Wedi'i ddileu | |
| Ysgol Bwyd a Gwin Caeredin | ⚫ | ⚫ |
| Stadiwm Twickenham | Wedi'i ddileu | |
| Ysgol Fusnes Prifysgol Ulster | 🟢 | Nid yw'n adrodd |
| Prifysgol Caeredin | 🟡 | 🟡 |
| Prifysgol De Cymru (PDC) | 🔴 | 🔴 |
| Prifysgol Stirling | ⚫ | ⚫ |
| Prifysgol Stirling | ⚫ | ⚫ |
| Prifysgol Gorllewin Llundain | 🟠 | Nid yw'n adrodd |

## GWEITHGYNHYRCHWYR A CHYFANWERTHWYR

*11% (cyfran o gyfanswm cronnol y dognau a gyfrannwyd gan ein haddunedwyr sy'n weithgynhyrchwyr a chyfanwerthwr)*

| ADDUNEDWR | GOLAU TRAFFIG | |
|---|---|---|
| | CYNNYDD CYFFREDINOL | CYNNYDD O RAN DOGNAU |
| Bidfood | 🟠 | Nid yw'n adrodd |
| Birds Eye | 🟠 | 🟠 |
| Castell Howell | 🟠 | Llinell sylfaen newydd |
| Mars | 🟡 | Llinell sylfaen newydd |
| Mash Direct | 🟡 | Dd/B |
| Moo Too You | Ddim yn gweithredu mwyach | |
| Nestle UK | 🟡 | Nid yw'n adrodd |
| Puffin Produce | 🟡 | Dd/B |
| Quorn | 🟠 | Dd/B |
| Strong Roots | ⚫ | ⚫ |
| Source Grow | 🟡 | 🟡 |
| SwperBox | 🟠 | 🟠 |

# Cyfeiriadau

Baker, M (2022) Fresh produce sales drop as consumer pressure bites. Available at: **https://www.fruitnet.com/fresh-produce-journal/fresh-produce-sales-drop-as-consumer-pressure-bites/247438.article** (Fel ar: 11 Tachwedd 2022)

IFS (2015) Shopping around: how households adjusted food spending over the Great Recession. Ar gael yn: **https://ifs.org.uk/sites/default/files/output_url_files/WP201529.pdf** (Fel ar: 11 Tachwedd 2022)

SYG (2021) Family spending workbook 1: detailed expenditure and trends. Ar gael yn: **https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/personalandhouseholdfinances/expenditure/datasets/familyspendingworkbook1detailedexpenditureandtrends** (Fel ar: 11 Tachwedd 2022)

Kantar (2017) The retailer challenge | Food Foundation. Ar gael yn: **https://foodfoundation.org.uk/retailer-challenge** (Fel ar: 11 Tachwedd 2022)

Kantar (2022) Darparwyd y data gyda charedigrwydd Kantar World Panel i Pys Plîs. [Llawysgrif heb ei chyhoeddi].

Reuters (2022) Britons shift from fresh to frozen in cost-of-living crunch -NielsenIQ Ar gael yn: **https://www.reuters.com/world/uk/britons-shift-fresh-frozen-cost-of-living-crunch-nielseniq-2022-10-18/** (Fel ar: 11 Tachwedd 2022)

The Food Foundation (2022) New data show 4 million children in households affected by food insecurity. Ar gael yn: **https://foodfoundation.org.uk/publication/new-data-show-4-million-children-households-affected-food-insecurity** (Fel ar: 11 Tachwedd 2022)

Veg Power (2022) Family evening mealtimes: market insight report edition 3: September 2022. Ar gael yn: **https://vegpower.org.uk/wp-content/uploads/2022/10/Veg-Power-Market-Insight-Report-3-Sept-2022.pdf** (Fel ar: 11 Tachwedd 2022)

The Food Foundation CIO
International House, 6 Canterbury Crescent, Brixton, London SW9 7QD
+44(0)20 3086 9953 | foodfoundation.org.uk | @Food_Foundation

©Food Foundation. All rights reserved. Reproduction in part or in whole is prohibited without prior agreement with The Food Foundation.
Charity number: 1187611.